# DRAFT MINUTES

| | |
|---|---|
| Meeting ID | 7661 |
| Committee | Cyfarfod Cysylltu gyda Chynghorau Cymuned |
| Date | 19/09/2019 |
| Attendees | Bishton CC (Aelod Pwyllgor)<br>Coedkernew CC (Aelod Pwyllgor)<br>Goldcliff CC (Aelod Pwyllgor)<br>Graig CC (Aelod Pwyllgor)<br>Langstone CC (Aelod Pwyllgor)<br>Llanvaches CC (Aelod Pwyllgor)<br>Llanwern CC (Aelod Pwyllgor)<br>Marshfield CC (Aelod Pwyllgor)<br>Michaelstone-y-Fedw CC (Aelod Pwyllgor)<br>Nash CC (Aelod Pwyllgor)<br>Penhow CC (Aelod Pwyllgor)<br>Redwick CC (Aelod Pwyllgor)<br>Rogerstone CC (Aelod Pwyllgor)<br>Wentlooge CC (Aelod Pwyllgor)<br>Gareth Price (Officer)<br>Liaison Meeting with Community Councils Distribution List (Notify)<br>Pamela Tasker (Swyddog Llywodraethu) |

| | |
|---|---|
| Item ID | 7088 |
| Item Title | Ymddiheuriadau dros Absenoldeb |
| Summary | J. Evans (Bishton), y Cynghorydd V. Dudley, y Cynghorydd D. Williams, J. Foster (Wentlooge), S. Davies (Graig), M. George (Llanwern), H. Jones (Langstone) |

| | |
|---|---|
| Item ID | 7089 |
| Item Title | Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf |
| Summary | Dywedodd cynrychiolydd y crybwyllwyd Waterloo Inn yn lle'r Farmers Inn a ddogfennwyd yn y cofnodion mewn perthynas â marathon Casnewydd.<br>Ar dudalen 8 nodwyd mai'r cyffyrdd cywir oedd 30, 32, a 33.<br><br>**Cytunwyd:**<br>Ei fod yn gofnod cywir o'r cofnodion. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 7090 |

| | |
|---|---|
| Item Title | Materion yn codi |
| Summary | **<u>Canolfan Gyswllt Cyngor Dinas Casnewydd</u>**<br>Gofynnodd cynrychiolydd a fyddai modd i'r clercod gael eu cyfeiriad e-bost eu hunain i anfon materion i'r ganolfan gyswllt gan fod gan gynghorwyr dinas eu cyfeiriad e-bost eu hunain.<br>Cadarnhaodd y Cadeirydd fod cyfeiriad e-bost yr aelodau ar gyfer y strydlun yn fewnol yn unig a'i fod yn ddiogel a'i fod ar gyfer y 50 o aelodau etholedig ond ni allai'r aelodau hynny ei ddefnyddio i osgoi materion, er enghraifft, byddai materion fel ceudyllau yn dal i gael eu cyfeirio i'r ganolfan gyswllt. Roedd cyfeiriad e-bost i glercod yn unig yn rhywbeth y gellid edrych arno ond ni ellid ei roi i aelodau'r cyhoedd.<br>Soniodd cynrychiolydd arall fod yr ap 'Trwsio Fy Stryd ' yn ddefnyddiol ac yn gyfredol. Dywedwyd y byddai'r strydlun yn annog 'Trwsio Fy Stryd' ac ati gan ei fod yn nodi materion yn gywir e.e. lleoliad. Mae gan Gyngor Dinas Casnewydd ap ffôn clyfar i roi gwybod am faterion hefyd.<br>Ailadroddodd y Cadeirydd eto mai ar gyfer cynghorwyr yn unig mae'r cyfeiriad e-bost ar gyfer aelodau a'i fod ar gyfer gwybodaeth cynghorwyr yn unig, a phe bai angen yr un peth ar glercod, yna gellid edrych ar hyn ond nid yn eang.<br>Holodd cynrychiolydd a oedd unrhyw ddiweddariad ar y Comisiwn Ffiniau. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y broses yn cymryd tua 6-8 mis gyda'r canlyniadau'n cael eu cyhoeddi ym mis Hydref a mis Tachwedd ond nid oedd unrhyw beth wedi'i glywed ers hynny |

| | |
|---|---|
| Item ID | 7091 |
| Item Title | Ymgynghoriad ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol |
| Summary | Eglurodd y Swyddog Cydraddoldeb, Joseph Lewis, ei rôl i'r cynrychiolwyr a dywedodd mai ei rôl oedd helpu'r awdurdod i ddatblygu amcanion strategol ac i arsylwi ar sut y câi'r rhain eu monitro. Roedd y cynllun presennol yn ei le tan 1 Ebrill 2020 ac felly roedd angen cynllun newydd. Sicrhaodd y Ddeddf Cydraddoldeb fod y cynlluniau hyn yn cael eu datblygu dros y cylch oes.<br>Mewn cyfnod o 6 mis roedd angen cynllun newydd ar gyfer yr awdurdod a oedd yn dal i gael ei lunio. Roedd ymgynghoriad cyhoeddus i gael ei gynnal ar y cynllun ac yna aeth y Swyddog Cydraddoldeb drwy'r cynllun i egluro wrth y cynrychiolwyr sut y byddai'n edrych. Byddai rhai o'r rhain yn faterion yn ymwneud â Chydraddoldeb mewn Cynghorau Cymuned:<br><br>**Prif Bwyntiau:**<br>• Cynllun strategol- Roedd hwn yn cynnwys meini prawf eang ynghylch effeithiolrwydd y cynlluniau cydraddoldeb. Roedd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gallai cynlluniau fod yn fwy effeithiol.<br>• Themâu allweddol- Roedd yr amcanion drafft yn cynnwys;<br>- Arweinyddiaeth a Llywodraethu ,<br>- Hyrwyddo'n well;<br><br>1. Cynrychiolwyr y gweithlu,<br>2. Demograffig y gweithlu ac a oedd yn adlewyrchu amrywiaeth,<br>3. Gwasanaethau'r cyngor a sut yr oedd pobl yn defnyddio adeiladau'r |

| | |
|---|---|
| | Cyngor e.e. yr orsaf wybodaeth,<br>4. Sut y cynrychiolwyd Iaith Arwyddion Prydain (BSL),<br>5. Cydlyniant Cymunedol,<br>6. Tensiynau cymunedol sy'n gysylltiedig â BREXIT,<br>7. Darpariaethau sy'n ymwneud â phobl ifanc a hŷn,<br>8. Perthynas ag addysg a gwasanaethau cymdeithasol.<br><br>Y bwriad oedd rhychwantu'r meysydd hyn a chyffwrdd â phob nodwedd a ddiogelir yn y ddeddf megis hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd ac ati. Roedd sylwadau penodol a oedd yn feirniadaeth benodol yn datgan nad oedd y cynllun yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac nad oedd yn hawdd ei ddefnyddio.<br>Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys gweithio gyda grwpiau penodol i siarad â sefydliadau penodol a oedd yn ymdrin â hil neu anabledd yn fanwl ynglŷn â'r hyn yr oeddent yn credu yr oedd Casnewydd yn ei wneud mewn perthynas â nodweddion y Ddeddf. Roedd yr ymgynghoriad ym mis Tachwedd yn cynnwys llyfnhau'r agweddau ymarferol gan ei fod yn dal yn y cyfnod datblygol, roedd y strwythur yn eithaf hir a byddai hyn yn cael ei ystyried.<br>Gofynnodd cynrychiolydd sut y byddai'r cynllun yn cael ei ddarparu i gynghorau cymuned ac aelodau ag anabledd.<br>Cadarnhawyd y byddai Cynllun Cydraddoldeb Cyngor Casnewydd ar gael i bob aelod o'r cyhoedd i roi sylwadau arno ac y byddai ar gael mewn gwahanol fformatau i'w wneud yn hygyrch.<br>Ym mis Tachwedd, byddai'r ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn cael ei gynnal gyda gwahanol sefydliadau allweddol megis y Tîm Cymorth Ethnig, Fforwm Mynediad Casnewydd, a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod.<br>Dywedodd cynrychiolydd pe bai cynlluniau yn y gorffennol yn wan o ran canlyniadau sut y gellid gwerthuso hyn, a thrafodwyd bod gan y cynllun cyfredol dermau eithaf eang felly nid oedd yn glir beth fyddai'r canlyniadau. Er enghraifft, roedd ymrwymiad i amrywio'r gweithlu ond sut y byddai hyn yn edrych e.e. mae cynllun prentisiaeth yn dod â phobl ifanc i mewn i'r sefydliad a gall data ddangos nad oeddem mor gynrychioladol ag y dylem fod. Trafodwyd y ffaith bod rhai camau gweithredu drafft yn y cynllun presennol lle'r oedd Llywodraeth Cymru am gael bwlch cyflogau llai er enghraifft, felly gellid cynllunio swm penodol ond nid oedd hyn yn hysbys eto. Credwyd y byddai'r cynllun presennol yn cael ei ailstrwythuro ac y byddai'r cyfarwyddyd yn fwy eglur ar gyfer 2024.<br>Roedd cwestiwn ynghylch a fyddai effaith ariannol ar gynghorau cymuned, ond cadarnhawyd na chredwyd y byddai hyn yn digwydd gan mai cynllun Cyngor Casnewydd ydoedd nid oedd cost i gynghorau cymuned. Byddai Cyngor Dinas Casnewydd wedyn yn talu am gostau unrhyw ganlyniadau a fyddai'n codi.<br>Trafodwyd hefyd sut y gellid gwella cydraddoldeb o fewn cynghorau cymuned, ond cadarnhawyd nad oedd hyn yn bosibl ond roedd Llywodraeth Cymru am weld gwelliant yn yr amrywiaeth o gynghorwyr yng Nghyngor Dinas Casnewydd. Roedd hyn yn beth digon anodd ei wneud ac roedd yn dibynnu ar y modd y mae pleidiau'n cyflwyno eu haelodau i'w hethol. Pe bai pleidiau gwleidyddol am gael rhestr 50/50 o ddynion a menywod, yna gallent wneud hyn, a gallai'r tîm cydraddoldeb hefyd ystyried targedu |

| | |
|---|---|
| | grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ar draws y gweithlu a bydd y cynllun hefyd yn ymdrin â hyn.<br>Cwestiynwyd, mewn perthynas â gwaith cynghorau cymuned nad oedd i fod yn wleidyddol, am y ffaith bod rhai cynghorwyr yn mynd i gael eu hethol yn annibynnol felly ni fydd hyn yn berthnasol i rai cynghorau cymuned gan nad oedd y cynrychiolydd yn wleidyddol a byddai'n gweithio i'w hardal hwy yn unig. Dywedodd y Cadeirydd nad oedd hyn yn rhan o'r cynllun hwn.<br>Dywedodd y Cadeirydd mai'r hyn oedd yn bwysicaf ar gyfer yr ymgynghoriad oedd darparu'r gwasanaeth a sut rydym yn sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i'r cyhoedd ac nad oedd ardaloedd gwledig ac ati yn nodwedd a ddiogelir. Dywedodd y Cadeirydd mai'r hyn a oedd yn berthnasol oedd a oedd grwpiau yn ardal y Cyngor Cymuned a oedd yn anabl ac ati a oedd yn dioddef os nad oedd Cyngor Dinas Casnewydd yn darparu gwasanaethau'r Cyngor.<br>Dywedodd cynrychiolydd y byddai dirywiad mewn gwasanaethau bysus ac ati yn broblem a thrafodwyd sut mae'r Comisiwn Hawliau Dynol yn aml yn tynnu sylw at addasrwydd safleoedd bysus, cyrbau is ac ati, ac roedd y problemau hyn yn berthnasol i'r cynllun.<br>Nodwyd nad yw'r Cyngor yn gweithio ar lwybrau bysus ac felly, os nad yw Stagecoach yn rhoi digon o lwybrau bysus, gallai'r Cyngor sybsideiddio rhai llwybrau anfasnachol. |

| Item ID | 7092 |
|---|---|
| Item Title | Datganiadau o ddiddordeb |
| Summary | Trafodwyd bod canllawiau ar y datganiad o fuddiant wedi cael eu dosbarthu ers y cyfarfod diwethaf i'r holl glercod cymuned a gofynnwyd a oedd angen hyfforddiant i glercod ac a oedd digon o ddiddordeb ar gyfer sesiwn fer.<br>Cafwyd trafodaeth ynglŷn ag a oedd angen llenwi ffurflenni o gwbl gan nad oedd yn ofyniad cyfreithiol i gynghorau cymuned. Dywedodd y Cadeirydd pe bai ffurflen yn cael ei llenwi, yna roedd angen ei chyhoeddi ar y wefan a'i bod yn arfer da gwneud hynny ac argymhellodd Cymru'n Un yr arfer.<br>Trafodwyd bod rhai pobl yn barod i'w wneud o'u gwirfodd ond ni ellid eu gorfodi i'w wneud. Dywedodd y Cadeirydd y gallai hyn fod yn statudol ar ôl i Swyddfa Archwilio Cymru gymryd awenau dyletswyddau archwilio.<br>Diwygiwyd y cod ymddygiad ychydig flynyddoedd yn ôl a chedwir y gofrestr gan y clerc.<br>Gofynnodd cynrychiolydd am y broses o ran a oedd gan gynghorydd gofrestr o ddiddordeb.<br>Cadarnhaodd y Cadeirydd, os nad oedd cofrestr gyhoeddus, y byddai Ffurflen C yn cael ei llenwi pe byddai'r gofrestr o ddiddordeb yn cael ei thrafod yn y cyfarfod. Gall hyn fod, neu ddim yn fod, yn anffafriol. Yna, mae'r unigolyn yn llofnodi'r ffurflen i ddweud na wnaeth gymryd rhan yn y cyfarfod sydd wedyn yn cael ei chyhoeddi ar-lein ac yn y cofnodion. Byddai angen i'r unigolyn roi ei law i fyny er enghraifft os byddai'n effeithio ar ei gyflogwr, yna byddai'n cael ei gofnodi yn y cofnodion ac yna'n cael ei gyhoeddi fel rhan o gofrestr yr Aelodau.<br>Nodwyd bod gan glercod fwy o ddiddordeb mewn materion prosesau a dywedodd y Cadeirydd fod hyn wedi cael ei grybwyll mewn cyfarfod |

| | |
|---|---|
| | blaenorol y Pwyllgor Safonau ac felly byddai'r mater hwn yn cael ei gyflwyno fel cyflwyniad helaethach yn y dyfodol.<br><br>**Cam gweithredu:**<br>Trefnu cwrs gloywi cynhwysfawr ar y datganiad o fuddiant a'r cod ymddygiad ar gyfer cynghorwyr cymuned.<br>Hyfforddiant i glercod i gael ei drefnu.<br><br>**<u>Unrhyw Fater Arall</u>**<br>Byddai Jacqui Ford, cynrychiolydd o Langstone, yn bresennol mewn cyfarfod ar 11 Hydref 2019 ar gyfer bwrdd gwasanaethau cyhoeddus Casnewydd (PSB) ac ni chodwyd unrhyw faterion gan unrhyw gynrychiolwyr.<br><br>Byddai'r ymgynghoriad NDF yn rhedeg tan 1 Tachwedd 2019. Roedd mwy o sesiynau galw heibio eto i fynd yng Nghaerdydd, Abertawe ac ati.<br><br>Anfonodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wybodaeth am yr adolygiad annibynnol o gynghorau tref a chymuned i Un Llais Cymru a anfonwyd at y gweithgor. Edrychodd hyn ar sut yr oedd cynghorau'n ymestyn eu rolau o fewn y sector gwirfoddol.<br>Byddai'n gyflwyniad ar y cyd lle byddid yn edrych ar rolau estynedig ar gyfer cynghorau tref er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus.<br>Roedd rhai cynghorau'n gallu darparu gwasanaethau gan eu bod yn ddigon mawr ac ni allai rhai wneud hynny. |

| Item ID | 7093 |
|---|---|
| Item Title | Dyddiad y Cyfarfod Nesaf |
| Summary | 5 Rhagfyr 2019 |